

NEWYDDION BRENIG BRENIG NEWS



CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD



Mae Cronfa Brenig yn cael ei llywio gan yr 16 tyrbin gwynt sy'n troi ar Fynydd Hiraethog o amgylch Llyn Brenig, ac a ddechreuodd droi 18 mis yn ôl i gynhyrchu digon o bŵer i fwy na thriddeg mil o gartrefi'r flwyddyn.

Mae cronfa Brenig yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau datblygu cymunedau a fydd yn darparu buddiannau lleol i bobl sy'n byw yn Sir Ddinbych a Chonwy a hyd yma mae £200,000 wedi'i ddosbarthu i sefydliadau amrywiol, o adnewyddu neuaddau pentref lleol a chlwb hwylio.

Dywedodd Lowri Owain o Cadwyn Clwyd, gweinyddwyr y gronfa:

“Mae'n bwysig bod cymaint o bobl â phosibl yn ymwybodol o'r cyfleoedd oherwydd mae hyn yn gyfle aruthrol i'r cymunedau yn ac o amgylch ardal Brenig ac rydym wedi sefydlu panel grantiau o bobl leol o'r ardal i wneud y penderfyniadau ar y cyllid.”



CYFLWYNIAD

Cadeirydd Panel Cronfa Brenig Wind Ltd yw Llyr Jones, sy'n ffermio gerllaw yn Llanfihangel GM, a dywedodd:

"Mae'r gronfa yn werth £150,000 y flwyddyn dros fwy na 25 o flynyddoedd sy'n cynrychioli cyfle gwych i bobl y cymunedau hyn sy'n byw gyda'r tyrbinau gwynt.

Fel pwyllgor rydym yn cyfarfod hyd at dair gwaith y flwyddyn i adolygu'r ceisiadau ac rwy'n credu bod y system yn un deg iawn sy'n cynrychioli gwerth am arian i'r bobl ac yn arbennig plant a phobl ifanc y cymunedau gwledig hyn."

Dywedodd David Heelan, o Brenig Wind Ltd:

"Rydym yn falch iawn ein bod yn gallu cefnogi grwpiau cymunedol a mentrau cymunedol lleol. Mae buddiannau a chymorth cymunedol yn elfennau hollbwysig i amcanion y cwmni ac fel datblygiad newydd yn yr ardal, rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag a chefnogi llawer mwy o fentrau a grwpiau wrth symud ymlaen ar gyfer yr hirdymor a chyfranogi mwy yn y gymuned leol."

BRENIG WIND LTD – Y DATBLYGIADAU HYD YMA

Ym mis Rhagfyr 2018 cynhaliodd Cadwyn Clwyd ddigwyddiadau ymgynghori a holiadur ar-lein i gasglu safbwyntiau'r gymuned ar flaenoriaethau'r gronfa a'i maes budd. Crëwyd panel Grantiau Brenig Wind yn dilyn cais agored i unigolion yn yr ardal leol fynegi diddordeb ym mis Medi 2019. Mae dwy rownd grantiau wedi'u cynnal, gyda grwpiau cymunedol yn cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau am gyllid. Agorwyd rownd gyntaf y gronfa ym mis Medi 2019, a'r ail ym mis Ionawr 2020.

Mae cronfa Brenig Wind Ltd wedi cefnogi:

34

O GRWPiau
CYMUNEDOL

36

PROSIECT
CYMUNEDOL

£198,735

O GRANTIAU
CYMUNEDOL

£25,000

O GRANTIAU
YCHWANEGOL
WEDI DENU



PROSIECTAU SYDD WEDI'U CEFNOGI GAN BRENIG WIND LTD....

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn gwneud gwahaniaeth ac yn cael effaith wirioneddol yn y gymuned leol. Mae pob prosiect yn deillio o gymunedau yn ardal fudd Brenig Wind Ltd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Dywedodd David Heelan o Brenig Wind Ltd:

“Mae'r cwmni'n falch iawn o allu cefnogi prosiectau mewn pentrefi a chymunedau yn yr ardal. Mae'r prosiectau hyn yn dangos y gefnogaeth sydd gennym i'r ardal ac edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi'r cymunedau hyn a pharhau i ddatblygu perthynas gadarnhaol wrth symud ymlaen, er budd y trigolion lleol”.

DYMA RAI O'R PROSIECTAU Y MAE'R GRONFA WEDI'U CEFNOGI HYD YMA....

Offer TG ar gyfer Cyfeillion Ysgol Carreg Emlyn

Derbyniodd Cyfeillion Ysgol Carreg Emlyn £3,780 i brynu 15 ipad. Bydd yr ipads yn cael eu defnyddio gan y clwb ar ôl ysgol – y Clwb Cyfrifiaduron. Bydd yr ipads yn galluogi'r plant i ddysgu sgiliau codio, ffilmio a chreu lluniau yn ogystal â chwarae gemau. Maent ar gael hefyd at ddefnydd y gymuned ehangach.

E-Feiciau newydd ar gyfer Clwb Beicio Hiraethog

Mae'r clwb beicio cymunedol wedi derbyn cefnogaeth Brenig i ehangu eu gweithgareddau beicio e-feiciau ac ychwanegu at eu gweithgareddau cymunedol presennol. Derbyniodd Clwb Beicio Hiraethog £6,897 i brynu 3 beic trydan newydd. Bydd y beiciau hyn yn galluogi'r clwb i ehangu eu gweithgareddau a darparu gwasanaeth ar gyfer beicwyr o bob math yn y gymuned, waeth beth yw eu gallu i feicio.

Gwelliannau i neuadd y pentref - Neuadd Goffa Plwyf Bylchau, Groes

Derbyniodd Neuadd Goffa Plwyf Bylchau £8,524 i wneud gwelliannau i'r neuadd. Bydd yr arian hwn yn galluogi'r gymuned i fuddsoddi i wella adeiladwaith y neuadd gymunedol yn Groes, er mwyn cyflawni'r gofynion ar gyfer yr 21ain ganrif.

Tafarn a Siop Gymunedol Antur Cae Cymro

Mae Antur Cae Cymro yn siop a thafarn gymunedol ym mhentref Clawddnewydd, sy'n gwasanaethu trigolion Clocaenog, Derwen, Clawddnewydd a'r ardaloedd cyfagos. Derbyniodd Antur Cae Cymro £21,000 ar gyfer Cydlynnydd. Bydd y Cydlynnydd yn rheoli ac yn gwella'r gweithrediadau o ddydd i ddydd ac mae wedi chwarae rhan weithgar yn ddiweddar yn cefnogi'r gymuned gyda gwasanaethau hanfodol megis dosbarthiadau siopa a phrydau bwyd poeth yn ystod y pandemig Covid presennol.

Offer Newydd ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Bro Aled

Derbyniodd Cymdeithas Chwaraeon Bro Aled £8,000 i brynu peiriant torri gwair. Mae'r peiriant torri gwair yn cael ei ddefnyddio ar y cae chwarae cymunedol er mwyn cadw'r ardal yn dachus a galluogi i unrhyw un yn y gymuned ddefnyddio'r ardal werdd at ddibenion hamdden.

Clwb Pêl-droed Nantglyn

Derbyniodd Clwb Pêl-droed Nantglyn £632 i brynu cit newydd. Mae Clwb Pêl-droed Nantglyn wedi bod yn cystadlu yng Nghynghrair Haf Llandyrnog a'r cylch ers 1992. Mae gan y clwb sgwad o tua 35 o chwaraewyr.



Clwb Hwyllo Llyn Brenig

Derbyniodd Clwb Hwyllo Llyn Brenig £3,800 i ddatblygu a moderneiddio'r clwb. Mae'r clwb hwyllo'n cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac arolwg i asesu'r opsiynau amrywiol ar gyfer y safle hwn, i ddatblygu hwb/cyfleuster twristiaeth at ddefnydd y gymuned. Hefyd, mae cronfa Brenig wedi galluogi'r clwb i sicrhau £5,000 pellach o arian Cynllun Datblygu Gwledig LEADER ar gyfer y prosiect.

Ysgol Goedwig yng Nghylch Meithrin a Ti a Fi Llanrhaeadr

CyDerbyniodd Cylch Meithrin Ti a Fi Llanrhaeadr £8,949 i ymestyn y Cylch a Ti a Fi o 3 diwrnod yr wythnos i 5 diwrnod yr wythnos drwy gyflwyno ysgol goedwig. Bydd yr arian yn galluogi Cylch Meithrin Llanrhaeadr i ymestyn darpariaeth y Cylch i 5 diwrnod yr wythnos oherwydd mae galw gan rieni i ehangu'r gwasanaeth. Gwneir hyn o dan y thema Ysgol Goedwig, a fydd yn eu galluogi i ddarparu gweithgareddau addysgol i'r plant yn yr awyr agored ym mhob tywydd.

System sain a thaflunydd newydd ar gyfer Canolfan Addysg Uwchaled

Gwneir defnydd sylweddol o Ganolfan Addysg Uwchaled yng Ngherrigydrudion, ac mae'n cynnal nifer fawr o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd y ganolfan grant o £9,627 gan Brenig i uwchraddio'r system sain a'r taflunydd. Bydd y system sain, sy'n addas i ddefnyddwyr, yn cyfoethogi'r profiad i unrhyw un sy'n dymuno cynnal neu fynychu gweithgareddau yn y ganolfan gymunedol.

Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Dinbych

Bydd £3,077 o gyllid Brenig a ddyfarnwyd i Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Dinbych yn galluogi'r Ymatebwyr Cyntaf i gynyddu lefel eu gwasanaeth drwy sicrhau bod mwy o offer a gwirfoddolwyr ar gael ar unrhyw adeg benodol. Bydd yr ymatebwyr cyntaf yn darparu gwasanaeth hollbwysig mewn ardal wledig iawn ac mae eu hymateb a'u cymorth wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod cyfnod anodd y pandemig Covid.



Flying High yn Ninbych

Bydd y £714 a ddarparwyd yn ail-lansio Flying High yn Sir Ddinbych i annog aelodau newydd a defnyddwyr nad ydynt yn gallu symud. Mae ganddynt 2 drampolîn newydd a pheiriant codi felly mae lle i 40 o aelodau anabl yn awr, gan gynnwys 8 defnyddiwr nad ydynt yn gallu symud. Mae hyn yn gynydd aruthrol mewn capasiti oherwydd dim ond 24 aelod oeddynt yn gallu darparu ar eu cyfer ac roedd yn rhaid i bob un ohonynt gael mynediad i'r trampolîn eu hunain.

Grŵp Cymunedol Canolfan Gymunedol Betws GG

Derbyniodd Grŵp Cymunedol Canolfan Gymunedol Betws GG £4,500 ar gyfer cynnal astudiaeth ddichonoldeb i greu neuadd bentref ar safle'r ysgol. Mae cymuned Betws GG yn awyddus i ymgorffori neuadd bentref ar dir yr ysgol gynradd. Bydd y cyllid yn darparu astudiaeth i hysbysu'r cyngor cymunedol ar y ffordd orau ymlaen. Mae cyllid Brenig hefyd wedi galluogi'r gymuned i dderbyn £11,500 ychwanegol o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig LEADER.

Côr Meibion Bro Aled, Llansannan

Derbyniodd Côr Meibion Bro Aled £9,064 i brynu system llwyfan fodwlar ac ôl-gerbyd. Bydd y cyllid a ddyfarnwyd i Côr Meibion Bro Aled yn eu galluogi i brynu system lwyfannu yn lle'r bocsys rhydd a ddefnyddiwyd i greu'r lefelau gwahanol i'r cantorion sefyll arnynt. Bydd y llwyfan ar gael hefyd i'w ddefnyddio er budd y gymuned gyfan.

Gwelliannau i'r Pentref – Cyngor Cymuned Clocaenog

Derbyniodd Cyngor Cymuned £5,906 ar gyfer gwelliannau i'r pentref. Bydd cyllid Brenig yn galluogi'r gymuned i wella ymddangosiad ac amgylchedd y pentref drwy adnewyddu ac ail-leoli sbysfwrdd presennol y pentref, darparu seddau yn y pentref ac ail-orchuddio'r lloches bws presennol i'w ddiogelu rhag y tywydd.



Datblygiad ar gyfer adeilad cymunedol newydd – Cyngor Cymuned Nantglyn

Nodwyd bod angen hwb newydd ym mhentref Nantglyn ers i'r ysgol gau ers rhai blynyddoedd a thrwy gael mynediad at gyllid fferm wynt Brenig, mae'r gymuned yn gobeithio y bydd ganddynt adeilad/cyfleuster modern ar gyfer y gymuned gyfan. Derbyniodd Cyngor Cymuned Nantglyn £3,000 i barhau gyda'r cynigion datblygu a chynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer adeilad cymunedol. Mae arian Brenig hefyd wedi galluogi'r gymuned i gael mynediad at £7,000 pellach o arian Cynllun Datblygu Gwledig LEADER ar gyfer y prosiect cyffrous hwn.

Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog

Derbyniodd Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog £1,519 i brynu camerâu ac offer arall. Dyfarnwyd £1,519 o gyllid Brenig i Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr a bydd y cyllid yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ehangu ar y gwaith a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, lle maent wedi llwyddo i ddiogelu ac atgyfnerthu'r boblogaeth gydag anifeiliaid sydd wedi'u magu mewn caethiwed. Sicrhawyd y llwyddiant hwn gan ddefnyddio gwahanol ddulliau, gan gynnwys olrhain gyda radio a darllenwyr Adnabod Amledd o Bell.

Gwahoddir ceisiadau yn awr ar gyfer y drydedd rownd, gyda dyddiad cau ar **7fed o Awst 2020**. Mae ffurflenni cais ar gael o brenig@cadwynclwyd.co.uk neu ar www.cadwynclwyd.co.uk

CANLLAWIAU CYLLIDO



Yr Ardal fudd:

- Yr ardal fudd yw'r cymunedau hynny yn Sir Ddinbych a Chonwy sydd agosaf at safle Brenig Wind Ltd.
- Y cymunedau hynny sydd o fewn radiws o 10 cilomedr o Fferm Wynt Brenig fydd yn creu'r ardal fudd.
- Mae'n bosibl y gellir cefnogi prosiectau yn yr ardal allanol o radiws 15 cilomedr, ar yr amod eu bod yn gallu arddangos yn glir sut y gallant greu budd i'r cymunedau yn yr ardal 10 cilomedr fewnol.
- Mae map o'r ardal fudd ar gael ar www.cadwynclwyd.co.uk

Trothwyon y grantiau:

- grant bychan o hyd at £10,000
- grant mawr o £10,000 i £50,000

Pwy all wneud cais?

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cyngorau Cymuned / Cyngorau Tref
- Mentrau cymdeithasol, ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw (gan gynnwys undebau credyd)
- Cwmnïau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau y mae'r gymuned yn berchen arnynt
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau'r trydydd sector

Mae Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd yn cael ei gweinyddu gan Cadwyn Clwyd. Am wybodaeth bellach cysylltwch â breinig@cadwynclwyd.co.uk / 01490 340500 / www.cadwynclwyd.co.uk